

Cwrs	Hyd	Campws	Cost
Dyfarniad Lefel 2 mewn Symud a Thrin Diogel (RQF)	1 diwrnod	Rhydaman	£60
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n dechrau gwaith neu'n dychwelyd i'r gwaith neu sydd angen hyfforddiant penodol wrth godi a chario. Mae hefyd yn addas ar gyfer hyfforddiant diweddarau. Mae'r pynciau a gwmpesir yn cynnwys y rhesymau dros godi a chario'n ddiogel, asesiadau risg, cyfarpar codi a chario a sut i gymhwyso egwyddorion codi a chario'n ddiogel.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Symud Pobl yn Ddiogel (RQF)	2 ddiwrnod	Rhydaman	£95
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n ymwneud â symud a chynorthwyo pobl ac fe'i bwriedir fel cymhwyster datblygiad pellach. Hefyd, mae'n addas fel hyfforddiant diweddarau. Mae'r pynciau'n cynnwys y rhesymau dros godi a chario'n ddiogel, asesiadau risg, cyfarpar, cymhwyso codi a chario'n ddiogel ac egwyddorion symud pobl yn ddiogel, materion iechyd ac urddas a chynlluniau trin personol.</p>			
Pasbort Cymru Gyfan i Godi a Chario	2 ddiwrnod	Rhydaman	£105
<p>Mae anafiadau codi a chario ymhlith staff sy'n gweithio yn y sector gofal iechyd yn parhau i fod yn ffactor arwyddocaol. Mae Cynllun Pasbort Hyfforddiant Codi a Chario Cymru Gyfan yn arwyddo Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn dod at ei gilydd i weithio tuag at weledigaeth gyffredin a rennir. Mae'n seiliedig ar bartneriaeth rhwng Grŵp Cyngori Codi a Chario Ymddiriedolaeth Cymru Gyfan a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.</p>			
Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith	1 diwrnod	Y Graig	£75
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n dymuno dod yn swyddogion cymorth cyntaf brys yn y gweithle. Mae'r cymhwyster hwn yn bodloni'r gofynion ar gyfer hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf brys yn y sefydliadau hynny sydd wedi nodi bod angen hyfforddi staff i'r lefel hon yn eu hasesiad anghenion cymorth cyntaf. Mae'r cymhwyster yn cwmpasu gwybodaeth megis rolau a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf a sut i asesu digwyddiad. Mae'r cymhwyster hefyd yn cwmpasu sgiliau cymorth cyntaf mewn adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a defnyddio diffibriliwr allanol awtomatig (AED), darparu cymorth cyntaf i anafedig sy'n tagu a delio â gwaedu allanol a sioc hypofolemig.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal Bywyd Sylfaenol a Defnyddio Diffibriliwr Allanol Awtomatig yn Ddiogel (RQF)	½ diwrnod	Y Graig	£40
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n dymuno cael hyfforddiant pellach neu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y cynnal bywyd sylfaenol hwn. Argymhellir ef ar gyfer swyddogion cymorth cyntaf yn y gweithle ac mae hefyd yn addas ar gyfer plant ysgol, fel yr argymhellir gan Y Cyngor Adfywio (y DU). Mae'r pynciau'n cynnwys sut i reoli anafedig anymatebol sy'n anadlu'n normal, sut i reoli anafedig anymatebol nad yw'n anadlu'n normal, a defnyddio diffibriliwr allanol awtomatig yn ddiogel.</p>			
Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith	3 diwrnod	Y Graig	£175
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n dymuno dod yn swyddogion cymorth cyntaf yn y gweithle. Mae'r cymhwyster hwn yn bodloni'r gofynion ar gyfer hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf yn y sefydliadau hynny sydd wedi nodi bod angen hyfforddi staff i'r lefel hon yn eu hasesiad anghenion cymorth cyntaf. Mae'r cymhwyster yn cwmpasu gwybodaeth megis rolau a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf, sut i asesu digwyddiad ac adnabod arwyddion a symptomau anafiadau ac afiechyd. Mae'r cymhwyster hefyd yn cwmpasu sgiliau cymorth cyntaf mewn CPR a defnyddio AED a chynorthwyo anafedig sy'n dioddef o anaf mawr a salwch megis anafiadau i'r frest, anafiadau i'r asgwrn cefn ac anaffylacsis.</p>			



Cwrs	Hyd	Campws	Cost
Ailgymhwysiad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith	2 ddiwrnod	Y Graig	£120
<p>Mae'r cymhwyster yn rhoi tystysgrif cymorth cyntaf yn y gwaith ddilys i ddysgwyr sy'n ategu'r gofynion am swyddog cymorth cyntaf a gymeradwywyd gan yr HSE am gyfnod o 3 blynedd. Ar ôl y cyfnod hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr ailhyfforddi. Rhaid cwblhau'r cwrs hwn cyn y dyddiad y daw'r cymhwyster gwreiddiol i ben</p>			
Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Paediatrig Brys	1 diwrnod	Y Graig	£70
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n dymuno ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i'w galluogi i ddarparu cymorth cyntaf paediatrig brys effeithiol. Fe'i bwriedir ar gyfer dysgwyr megis rhieni a pherthnasau, staff lleoliad cyn-ysgol neu feithrinfa, gwirfoddolwyr grŵpiau plant bach, gwarchodwyr plant a nanis, au pairs a rhieni maeth, neu unrhyw un sy'n gorfod darparu cymorth cyntaf fel rhan o'u rôl mewn lleoliad gofal plant neu amgylchedd domestig. Mae'r pynciau'n cynnwys rôl a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf paediatrig a rhoi cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy'n anymatebol ac yn anadlu'n normal. Mae'r cymhwyster hefyd yn cwmpasu sut i roi cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy'n tagu neu sy'n dioddef o sioc hypofolemig a sut i drin mân anafiadau.</p>			
Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Paediatrig	2 ddiwrnod	Y Graig	£105
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n dymuno dod yn swyddog cymorth cyntaf paediatrig yn y gweithle gyda chyfrifoldeb dros les babanod a phlant. Bwriedir y cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn gweithio, neu'n paratoi i weithio, yn y diwydiant ac mae'n bodloni'r gofynion am gymorth cyntaf paediatrig a amlinellir yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r pynciau yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf a rhoi cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy'n anymatebol ac yn anadlu'n normal. Mae'r cymhwyster hefyd yn cwmpasu sut i roi cymorth cyntaf i faban neu blentyn sydd ag anafiadau pen ac anafiadau asgwrn cefn, sy'n tagu neu'n dioddef o anaffylacsis.</p>			
APLH - Deilydd Trwydded Bersonol Alcohol	1 diwrnod	Y Graig	£65
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n gweithio, neu'n paratoi i weithio, mewn unrhyw ddiwydiant sy'n ymwneud â gwerthu alcohol. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwerthu neu awdurdodi gwerthu alcohol trwy fanwerthu ar safleoedd trwyddedig ddal trwydded bersonol. Mae'r rhain yn cynnwys natur, pwrpas a chyfnod dilysrwydd trwydded bersonol, y broses ymgeisio a dyletswyddau cyfreithiol wrth wneud cais am drwydded bersonol, dyletswyddau cyfreithiol deilydd trwydded bersonol, rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau awdurdodau trwyddedu, natur a chryfder alcohol a'r effaith ar y corff a'r gyfraith mewn perthynas â thrwyddedau safleoedd.</p>			
APLH - Deilydd Trwydded Bersonol Alcohol (Ar-lein ac Arholiad)	9 Awr	Ar-lein	£85
<p>Mae fersiwn ar-lein achrededig o'r cwrs lefel 2 hwn hefyd ar gael. Fel arfer gall dysgwyr sy'n cofrestru ar hwn ddechrau o fewn 24 awr, caiff y cwrs hwn ei gyflwyno ar-lein, fodd bynnag bydd angen i ddysgwyr ddod i un o'r canolfannau profi i gwblhau eu hasesiad terfynol (prawf amlddewis) dan amodau arholiad. Yn anffodus, yn y mwyafrif o achosion, mae'r corff dyfarnu yn amodi cyfnod rhybudd o 5 diwrnod gwaith ar gyfer gwneud bwciad am arholiad.</p>			
Dyfarniad Lefel 1 mewn Diogelwch Bwyd	½ diwrnod	Y Graig	£33
<p>Nid yw'r cymhwyster hwn yn ateb y gofynion cydymffurfio lleiaf ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn y sector bwyd, fodd bynnag mae'n ddelfrydol ar gyfer y rheiny heb unrhyw brofiad o baratoi bwyd ac sydd angen cwrs rhagarweiniol cyn symud ymlaen i Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd.</p>			



Cwrs	Hyd	Campws	Cost
Dyfarniad Lefel 1 mewn Diogelwch Bwyd (Ardystiedig Ar-lein)	5 Hours	Online	£45
Mae fersiwn ar-lein achrededig o'r cwrs hwn hefyd ar gael. Fel arfer gall dysgwyr sy'n cofrestru ar hwn ddechrau o fewn 24 awr, caiff y cwrs hwn ei gyflwyno ar-lein, fodd bynnag bydd angen i ddysgwyr ddod i un o'n canolfannau profi i gwblhau eu hasesiad terfynol (prawf amlddewis) dan amodau arholiad.			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd	1 diwrnod	Y Graig	£60
Mae'r dyfarniad hwn wedi'i anelu at unigolion sydd yn, neu sydd yn bwriadu, trin bwyd. Bydd dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn yn gwybod bod diogelwch bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb sydd yn ymwneud â storio, paratoi, darparu gwasanaeth coginio a thrin bwyd.			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd (Ardystiedig Ar-lein)	10 Awr	Ar-lein	£25
Mae fersiwn ar-lein anachrededig o'r cwrs lefel 2 hwn hefyd ar gael. Fel arfer gall dysgwyr sy'n cofrestru ar hwn ddechrau o fewn 24 awr, caiff y cwrs hwn ei gyflwyno'n gyfan gwbl ar-lein, a gall dysgwyr argraffu eu tystysgrif cwblhau ardystiedig Highfield eu hunain sy'n ateb yn llawn gofynion cyrff cydymffurfio yn y DU.			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd (Ar-lein ac Arholiad)	11 Awr	Ar-lein	£50
Mae fersiwn ar-lein achrededig o'r cwrs lefel 2 hwn hefyd ar gael. Fel arfer gall dysgwyr sy'n cofrestru ar hwn ddechrau o fewn 24 awr, caiff y cwrs hwn ei gyflwyno ar-lein, fodd bynnag bydd angen i ddysgwyr ddod i un o'n canolfannau profi i gwblhau eu hasesiad terfynol (prawf amlddewis) dan amodau arholiad. Ar gwblhau'r cwrs ar-lein yn llwyddiannus, gall dysgwyr argraffu eu tystysgrif cwblhau ardystiedig Highfield dros dro eu hunain sy'n ateb yn llawn gofynion cyrff cydymffurfio yn y DU.			
Dyfarniad Lefel 3 mewn Diogelwch Bwyd	3 diwrnod	Y Graig	£70
Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at y rheiny sydd yn gweithio yn y diwydiant bwyd sydd ar, neu sydd yn dymuno symud ymlaen i, lefel uwch neu lefel oruchwyliol. Mae'r pynciau'n cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelwch bwyd, cymhwyso a monitro arferion hylendid da, sut i weithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd a chymhwyso a monitro arferion da o ran halogiad, microbioleg a rheoli tymheredd.			
Lefel 2 HACCP (rheolaeth diogelwch bwyd dadansoddi peryglon)	1 diwrnod	Y Graig	£70
Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at y rheiny sydd yn gweithio mewn amgylchedd bwyd a thrinwyr bwyd eraill. Bwriedir y cymhwyster ar gyfer y rheiny sydd eisoes yn gweithio mewn timau HACCP a'r rheiny sy'n paratoi i weithio yn y diwydiant. Mae'r pynciau'n cynnwys gwybod am y gweithdrefnau sydd eu hangen i ddatblygu systemau rheoli diogelwch bwyd seiliedig ar egwyddorion HACCP a hefyd sut i ddatblygu'r systemau hyn yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Diogelwch Tân	1 diwrnod	Y Graig	£65
Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n ymwneud â rheoli diogelwch tân mewn unrhyw weithle. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr, goruchwylwyr, arweinwyr tîm, wardeiniaid tân (marsialiaid) a staff sy'n gweithio mewn unrhyw faes lle mae risg posibl o dân. Bydd dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn yn gwybod bod diogelwch tân yn gyfrifoldeb ar bawb yn y gweithle a byddant yn cydnabod canlyniadau tân mewn unrhyw adeilad. Mae'r pynciau'n cynnwys peryglon a risgiau, rheoli risg tân, egwyddorion ac arferion rheoli diogelwch tân yn y gwaith a rôl y warden tân enwebedig.			

Cwrs	Hyd	Campws	Cost
Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (RQF)	1 diwrnod	Y Graig	£60
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth i ddysgwyr am yr arferion iechyd a diogelwch sylfaenol sy'n hanfodol yn y gweithle. Mae'r cymhwyster yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o gyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr, manteision iechyd a diogelwch da, camau i asesiad risg a sut y gallant leihau damweiniau, damweiniau fu bron â digwydd ac afiechyd, peryglon nodweddiadol a rheolaethau mewn gweithle, achosion cyffredin damweiniau, damweiniau fu bron â digwydd ac afiechyd, gweithdrefnau argyfwng a phwysigrwydd cofnodi damweiniau, damweiniau fu bron â digwydd ac afiechyd.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelu ac Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc (RQF)	1 diwrnod	Y Graig	£50
<p>Tanategir y cymhwyster hwn gan y strategaeth Prevent ac fe fydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall pobl ifanc fod yn agored i niwed, camdriniaeth neu ecsbloetiaeth yn y gweithle a/neu'r amgylchedd dysgu.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 mewn Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (RQF)	¾ diwrnod	Y Graig	£65
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n gweithio mewn amgylchedd lle mae dod i gysylltiad â sylweddau peryglus yn debygol. Mae hyn yn cynnwys gweithleoedd mewn meysydd megis gweithgynhyrchu, glanhau, gofal iechyd, trafniadaeth, cyfleustodau ac amgylcheddau swyddfa. Mae'r pynciau'n cynnwys y gyfraith sy'n ymwneud â sylweddau peryglus yn y gweithle, sut mae asesiadau risg yn cyfrannu at ddefnyddio sylweddau peryglus yn ddiogel yn y gweithle a'r rhagofalon a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau peryglus yn cael eu rheoli'n iawn.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 BIIAB ar gyfer Goruchwylwyr Drysau	4 diwrnod	I'w gadarnhau	£290
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n dymuno gwneud cais am drwydded oddi wrth Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) i weithio fel goruchwylwr drysau. Mae'n seiliedig ar y fanyleb SIA berthnasol ar gyfer dysgu a chymwysterau a chaiff ei ategu gan Sgiliau ar gyfer Diogelwch, y corff sy'n gosod safonau ar gyfer y diwydiant diogelwch a'r SIA, sy'n rheoleiddio'r diwydiant diogelwch preifat.</p>			
Dyfarniad Lefel 2 BIIAB mewn Gwarchod Diogelwch	3 diwrnod	I'w gadarnhau	£225
<p>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n dymuno gwneud cais am drwydded oddi wrth Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) i weithio fel swyddog diogelwch. Mae pynciau'n cynnwys; prif nodweddion y diwydiant diogelwch preifat, pwysigrwydd arferion gwaith diogel i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rôl swyddog diogelwch o fewn y diwydiant diogelwch preifat, y gyfraith sy'n berthnasol i rôl swyddog diogelwch, sut i adnabod, asesu a lleihau risg mewn sefyllfaoedd o wrthdaro ac arfer da i'w ddilyn ar ôl sefyllfaoedd o wrthdaro.</p>			